# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SAFONAU | | STANDARDS COMMITTEE |
| DYDD IAU, 11 MEDI 2014 am 2.00 o'r gloch | | THURSDAY, 11 SEPTEMBER 2014 at 2.00 pm |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| **Swyddog Pwyllgor** | **Mrs. Mairwen Hughes (01248) 752515** | **Committee Officer** |

**Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Mrs. Denise Harris Edwards
Mr. Islwyn Jones
Mr. Leslie Lord
Mrs. Dilys Shaw
Mr. Michael Wilson

**Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes
Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

William Raymond Evans
John Roberts

**R H A G L E N**

**1** **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganid o ddiddordeb gan unrhyw Aeod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y Rhalgen.

**2** **COFNODION Y CYFARFOD** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno i'w cadarnhau gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 11 Mehefin, 2014.
**(PAPUR 'A')**

**3** **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 7 - 10)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"*Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*
***(Papur 'B')***

**4** **GWRANDAWIAD INTERIM** (Tudalennau 11 - 414)

Derbyn adroddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r Côd Ymddygiad ar gyfer Aelodau, a chynnal gwrandawiad interim er mwyn penderfynu a ddylid cyfeirio'r mater ar gyfer gwrandawiad llawn ac, os felly, awdurdodi swyddogion i bennu dyddiad ar gyfer gwrandawiad o'r fath a chyhoeddi cyfarwyddiadau ar gyfer ei gynnal.
***(Papur 'C')***

**5** **COFRESTR O RODDION A LLETYGARWCH A NODIADAU BRIFFIO** (Tudalennau 415 - 434)

Derbyn diweddariad ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch ers yr Adolygiad gan y Pwyllgor Safonau o'r Cofrestrau a'r cyngor a roddwyd wedyn i'r Aelodau.
***(Papur 'CH')***

**6** **CWYNION YNGHYLCH YMDDYGIAD I'R OMBWDSMON** (Tudalennau 435 - 438)

**6A** Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorwyr Sir. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
***(Papur 'D')***

**6B** Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Cofforaethol) ar ffurf matrics wedi ei ddiweddaru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Er gwybodaeth ac unrhyw gwestiynau.
***(Papur 'DD')***

# ATODIAD / ENCLOSURE A

# PWYLLGOR SAFONAU

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2014

**YN BRESENNOL:** **Aelodau Annibynnol**

Mr Michael Wilson (Cadeirydd)
Mr Islwyn Jones (Is-Gadeirydd)

Mrs Denise Harris Edwards
Mr Leslie Lord
Mrs Dilys Shaw

**Yn cynrychioli'r Cynghorau Tref/Cymuned**

Cynghorwyr William Raymond Evans ac John Roberts

**WRTH LAW:** Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro
Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) (AP)
Rheolwr y We (PA) (Eitem 4)
Rheolwr Archwilio (JF) (Eitem 5)
Uwch Swyddog Datblygu AD (MW) (Eitem 6)
Swyddog Pwyllgor (MEH)

**APOLOGIES:** Councillors Trefor Lloyd Hughes and Dafydd Rhys Thomas

Mynegodd yr Aelodau eu cydymdeimlad dwysaf â'r Cynghorydd Raymond Evans yn ei brofedigaeth o golli ei ferch yn ddiweddar.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Mawrth, 2014.

**MATERION YN CODI**

2. (11) - Nododd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) bod Clerc Cyngor Tref Caergybi wedi ymateb i ddweud y bydd yn mynychu un o'r sesiynau hyfforddi a drefnir gan y Cyngor Sir.

## 3 FFORWM PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd a nodwyd – cofnodion y Fforwm Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2014.

Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad ar y materion a godwyd yn y Fforwm. Nodwyd bod presenoldeb y Cynghorau Tref a Chymuned mewn sesiynau hyfforddi yn ymddangos fel pe bai'n broblem i bob awdurdod. Roedd yr Aelodau'n credu y dylid annog aelodau Cynghorau Tref a Chymuned i fynychu sesiynau hyfforddiant yn arbennig felly mewn perthynas â'r Côd Ymddygiad. Roedd Clercod Cynghorau Tref a Chymuned hefyd i'w gweld fel pe baent yn anesmwyth o ran cymryd cyfrifoldeb am roi cyngor i'w haelodau ar y Côd Ymddygiad.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro y byddai'n cysylltu ag Unllais Cymru i weld a oedd gan Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ddisgrifiad swydd. Dywedodd hefyd y dylid gwneud y Clercod yn ymwybodol o'r ffaith bod y Cyngor Sir ar gael i roi cyfarwyddyd ar unrhyw fater yn ymwneud â'r Côd a bod y cyfrifoldeb am gadw at y Côd yn fater i'r Cynghorwyr.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Cael disgrifiadau swydd safonol i Glercod a chyflwyno copi i'r Cadeirydd.**

## 4 DATGANIADAU O DDIDDORDEB MEWN CYFARFODYDD A'R GOFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH

Cyflwynwyd – adroddiad gan Reolwr y We Gorfforaethol mewn perthynas â chyhoeddi Cofrestrau Statudol ar-lein.

Dywedodd Rheolwr y We Gorfforaethol nad oedd unrhyw ddatganiadau o Roddion a Lletygarwch wedi cael eu cwblhau gan yr Aelodau ers y cyfarfod diwethaf. Soniodd ymhellach am y meddalwedd ychwanegol sydd ei hangen er mwyn caniatáu i Aelodau roi eu datganiadau o ddiddordeb mewn cyfarfodydd i mewn eu hunain. Byddai datblygu'r feddalwedd hon yn costio £7,500 + TAW i'r awdurdod. Byddai angen cyfnod o arbrofi a hyfforddi a rhagwelwyd y byddai'r defnydd newydd hwn yn cymryd hyd at 3 mis i'w ddatblygu a'i weithredu.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chefnogi'r fenter.**

**GWEITHREDU : Bydd Rheolwr y We Gorfforaethol yn drafftio adroddiad, gyda chefnogaeth y Pwyllgor Safonau i ofyn am gyllid ar gyfer y feddalwedd fel y gall yr Aelodau eu hunain fewnbynnu yn electronig eu datganiadau o ddiddordeb mewn cyfarfodydd.**

## 5 PROSIECT RHEOLI CWYNION – ADOLYGIAD ARCHWILIO

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Rheolwr Archwilio yng nghyswllt archwiliad a wnaed o'r Weithdrefn Gwynion Gorfforaethol fel rhan o'r Cynllun Archwilio Mewnol

cyfnodol oedd wedi ei gymeradwyo ar gyfer 2014/15 yn dilyn cais gan y Pwyllgor Safonau.

Nododd y Rheolwr Archwilio bod 62 o gwynion wedi eu prosesu hyd at eu cwblhau rhwng Ebrill 2013 a Mawrth 2014. Nid oedd y cwynion hyn yn cynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol ac Ysgolion gan eu bod yn cael eu cofnodi ar wahân. Dywedodd y canfuwyd yn ystod yr adolygiad fod prosesau digonol yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth. Fodd bynnag, roedd dau wendid a nodwyd yn ymwneud â hyfforddi staff mewn perthynas â'r polisi pryderon a chwynion a hefyd cynhyrchu adroddiad blynyddol i roi dadansoddiad o batrymau cwynion a gwersi i'w dysgu o flynyddoedd blaenorol.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/ Swyddog Monitro) ei bod wedi cael cyfarfod gyda'r Swyddog Cwynion Corfforaethol ac y cafwyd cytundeb y byddai'n cyfarfod â'r Swyddogion Cwynion yn y Gwasanaethau i lunio'r adroddiad yr oedd ei angen ac yna i drefnu hyfforddiant.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU : Bod Aelodau'r Pwyllgor Safonau yn derbyn adroddiad y Swyddog Cwynion Corfforaethol yng nghyswllt yr uchod, ynghyd â'r cynllun hyfforddi.**

## 6 ADOLYGU PERFFORMIAD

Cyflwynwyd – adroddiad llafar gan yr Uwch Swyddog Datblygu AD ar y broses gyfredol ar gyfer Adolygiadau Datblygu Perfformiad Aelodau Etholedig gyda chyfeiriad at y dogfennau profforma.

Cyfeiriodd y Swyddog at yr Adolygiadau Datblygu Perfformiad y bydd angen i Aelodau'r Pwyllgor Safonau eu cwblhau. Awgrymwyd y byddai'r Cadeirydd/Is-Gadeirydd yn gweithredu fel adolygwyr. Pwrpas adolygiadau o'r fath yw nodi'r sgiliau a'r anghenion hyfforddi sydd eu hangen i gefnogi swyddogaethau Aelodau'r Pwyllgor Safonau. Pwysleisiwyd y dylid cwblhau'r adolygiadau hyn erbyn mis Hydref. Mae'r holl ddisgrifiadau swydd bellach wedi eu cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Yr Uwch Swyddog Datblygu AD a'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) i wneud trefniadau ar gyfer cynnal Adolygiadau Datblygu Perfformiad i Aelodau'r Pwyllgor Safonau er mwyn sicrhau bod y gwaith papur yn cael ei gwblhau a bod unrhyw anghenion datblygu'n cael eu nodi.**

## 7 CWYNION AM YMDDYGIAD I OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

**7A** Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru i Gynghorwyr Sir.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Adroddiad diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn y Pwyllgor Safonau nesaf.**

**7B** Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar ffurf matrics wedi'i ddiweddaru ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Adroddiad diweddaru ar unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn y Pwyllgor Safonau nesaf.**

**8 PENDERFYNIADAU'R PANEL DYFARNU**

**8A** Cyflwynwyd – crynodeb o benderfyniadau a gyflwynwyd gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ac a wnaed gan y Panel Dyfarnu rhwng 12 Mawrth 2014 a 10 Mehefin 2014.

Rhoddodd y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) adroddiad byr ar gefndir rhai penderfyniadau a wnaed yng nghyswllt achos yng Nghyngor Tref Llandrindod.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Diweddariad i'w dderbyn neu unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn y Pwyllgor Safonau nesaf, a hysbysu'r Aelodau gan gynnwys Cynghorau Cymuned lle mae hynny'n briodol.**

**8B** Cyflwynwyd – crynodeb o Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol).

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad er gwybodaeth.**

**GWEITHREDU : Diweddariad i'w dderbyn neu unrhyw ddatblygiadau pellach gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn y Pwyllgor Safonau nesaf, a hysbysu'r Aelodau gan gynnwys Cynghorau Cymuned lle mae hynny'n briodol.**

**9 HYFFORDDIANT I AELODAU'R PWYLLGOR A CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED**

**9A** Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr ymatebion a dderbyniwyd i'r llythyrau a anfonwyd ynglŷn â phresenoldeb mewn sesiynau hyfforddi a gyflwynwyd gan Un Llais Cymru.

Dywedodd y Swyddog bod angen annog Clercod Cynghorau Tref a Chymuned i ofyn am gyfarwyddyd gan y Cyngor Sir. Nodwyd bod y Pennaeth

Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro a'r Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn barod i geisio adeiladu perthynas weithio agosach gyda'r Clercod yng nghyswllt materion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad.

**PENDEFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**GWEITHREDU : Bod y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) yn gohebu â Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned i'w hannog hwy i fynychu'r sesiynau hyfforddi ac i'w gwneud hwy yn ymwybodol ei bod hi a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro ar gael i roi cyfarwyddyd pan mae angen hynny.**

**9B** Cyflwynwyd – adroddiad gan y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) ar yr hyfforddiant sydd i'w gyflwyno gan Mr. Peter Keith Lucas ar 1 Gorffennaf 2014.

Dywedodd y Swyddog bod angen i unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Safonau sy'n dymuno codi unrhyw bynciau ychwanegol yn y sesiwn hyfforddi anfon eu ceisiadau ymlaen iddi hi mewn da bryd.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Y Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Safonau nesaf ar yr hyfforddiant a roddwyd.**

**10 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD A'R RHAGLEN WAITH**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi cyflwyno ei Adroddiad Blynyddol a'r Rhaglen Waith i'r Cyngor llawn ar 8 Mai 2014. Nododd ei fod wedi pwysleisio eto y bydd y Pwyllgor Safonau yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnal safonau o fewn y Cyngor a chynnig cyfleon hyfforddi i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ar y Côd Ymddygiad.

**PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.**

**GWEITHREDU : Dim.**

Daeth y cyfarfod i bed am 4:00 pm

**MR MICHAEL WILSON**
**CADEIRYDD**

ATODIAD / ENCLOSURE
B

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Ystyried cwyn yn erbyn Aelod yn dilyn ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

**To consider a complaint against a Member following investigation by the Public Services Ombudsman for Wales**

| Paragraff(au) *Paragraph(s)* 18A | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 *Schedule 12A Local Government Act 1972* |
|---|---|
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / *There is a public interest in disclosure as:-*<br><br>Gwrandawiad rhagarweiniol yw hwn i ganfyddiad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru y gall Aelod fod wedi torri'r Côd Ymddygiad.<br><br>Pwrpas y Côd yw annog safonau ymddygiad mewn bywyd cyhoeddus, fel y cânt eu disgrifio yn Côd, a'u gorfodi pan fo raid. Mae hwn yn fater o diddordeb cyhoeddus oherwydd mae cydymffurfio gyda'r Côd â rôl sicrwydd bwysig o ran yr hyn y mae Cynghorwyr yn ei wneud pan yn cynrychioli ddiddordeb cyhoeddus. Yn gryno, mae'r ffaith fod y Côd yn bodoli o gwbl er budd y cyhoedd i raddau helaeth.<br><br>*This is a preliminary hearing into a finding by the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) that a Member may have breached the Code of Conduct.*<br><br>*The purpose of the Code is to encourage the standards of conduct in public life, as described in the Code, and, when necessary, to enforce them. This is a public interest issue as compliance with the Code plays an important assurance role for the actions of Members when representing the public interest. In short, the fact that the Code exists at all is largely for the benefit of the public* | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is:-*<br><br>Mae paragraff 18A o atodlen 12A yn cyfeirio at "information which is subject to any obligations of confidentiality".<br><br>Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi rhoi'r cyfarwyddyd isod i'r Cyngor:-<br><br>"Prior to any hearing the Ombudsman asks the recipient of the Report to treat it as confidential in advance of the hearing".<br><br>O'r herwydd, mae OGCC wedi mynnu bod ei Adroddiad yn cael ei gadw'n gyfrinachol sy'n creu disgwyliad y bydd y Cyngor yn parchu cyfrinachedd.<br><br>Byddai datgelu'r Adroddiad, a thrafod ei gynnwys mewn cyfarfod, bellach yn torri disgwyliadau pendant OGCC o ran cyfrinachedd a gallai olygu bod y Cyngor yn agored i her gyfreithiol neu gŵyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth. Er gwaethaf teilyngdod her o'r fath, gallai ddwyn y Cyngor i mewn i anghydfodau dianghenraid sy'n gwastraffu adnoddau cyhoeddus.<br><br>Wedi mynnu ar ymrwymiad o ran cyfrinachedd "cyffredinol", dylai fod yn fater i OGCC gyfiawnhau ei safiad pe ceid her oherwydd y penderfyniad i beidio datgelu oherwydd nid yw'r Cyngor yn gwybod beth yw ei resymau neu ei gyfiawnhad.<br><br>Ymhellach, mae adroddiad yr Ombwdsmon yn datgelu hunaniaeth unigolyn ac fe allai hyn achosi poendod neu niwed i'r unigolyn. Ni |

| | |
|---|---|
| | fuasai yn helpu i ddileu enw'r unigolyn gan y byddai'n parhau i fod yn bosibl i adnabod yr unigolyn o weddill y wybodaeth sydd o fewn yr adroddiad.<br><br>*Paragraph 18A of Schedule 12A relates to "information which is subject to any obligations of confidentiality".*<br><br>*The PSOW has instructed the Council that:-*<br><br>*"Prior to any hearing the Ombudsman asks the recipient of the Report to treat it as confidential in advance of the hearing".*<br><br>*Accordingly, the PSOW has imposed a confidentiality obligation on the Report, creating an expectation of confidentiality on the part of the Council.*<br><br>*Disclosure of the Report, including discussion of its content in a public meeting, would now breach the PSOW's explicit expectation of confidentiality and might leave the Council open to legal challenge or complaint to the Information Commissioner. Regardless of the merits of such challenge this has the potential to involve the Council in needless disputes that waste public resources.*<br><br>*Having imposed a "blanket" confidentiality obligation it should be for the PSOW to justify its position in the event of challenge to non-disclosure, as the Council is not privy to its reasoning or justification.*<br><br>*Further, the Ombudsman's report discloses the identity of a third party and this disclosure could cause distress or detriment to that individual. To redact the name of the individual would not assist as it would still be possible to identify the individual from other information contained within the report.* |

**Argymhelliad** - Wedi pwyso a mesur, mae'r budd i'r cyhoedd o ran cadw'r eithriad, yn fwy na fyddai'r budd i'r cyhoedd petai'r wybodaeth yn cael ei datgelu, yn arbennig felly gan mai gwrandawiad rhagarweiniol yn unig yw hwn.

***Recommendation*** *- On balance, the public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information, particularly as this is a preliminary hearing only.*

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# ATODIAD / ENCLOSURE CH

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD:** | 11 Medi 2014 |
| **TEITL:** | Nodyn Briffio i Aelodau'r Cyngor Sir ar Roddion a Lletygarwch |
| **ADRODDIAD GAN:** | Awena Walkden, Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol) |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | I gael cytundeb y Pwyllgor Safonau ar y ddogfen hyfforddi drafft |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Awena Walkden Cyfreithiwr (Llywodraethu Corfforaethol)<br>Est 2563 |

**Cefndir**

Yn dilyn yr Etholiadau Llywodraeth Leol ym Mai 2013, bu'r Aelodau newydd a rhai oedd yn dychwelyd yn dilyn rhaglen sylweddol o hyfforddi a datblygu. Ym mis Chwefror 2014 fe roddwyd i'r Cyngor statws Siarter Datblygu Aelod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac fe fabwysiadwyd ei Raglen Ddatblygu Flynyddol i Aelodau am 2014/15.

Nid yw pob mater, er hynny, yn benthyca eu hunain i sesiynau datblygiadol penodol ac felly nid yw'r Cyngor wedi cyflwyno'r cysyniad o gyhoeddi nodiadau briffio achlysurol i Aelodau ar feysydd cyfrinachol, yn arbennig y rhai y mae Aelodau'n ceisio cael cyngor arnynt yn aml.

Hyd yn hyn, mae 4 o nodiadau briffio wedi eu rhoi allan ar y testunau canlynol:-

1. Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011

2. Caffael Cyhoeddus

3. Gosod Tai Cyngor Lleol

4. Rhyddid Llefaru Gwleidyddol v Côd Ymddygiad

Mae copïau ynghlwm yn Atodiad 1. Maent hefyd ar gael ar wefan y Cyngor yn <http://monitor.anglesey.gov.uk/corporate-resource/corporate-governance/briefing-notes-to-members/>

**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**

Ynghynt y flwyddyn hon fe gwblhaodd y Pwyllgor Safonau ei adolygiad blynyddol o'r tair cofrestr gyhoeddus o ddiddordebau'r Aelodau ("yr Adolygiad").

Ynghlwm yn Atodiad 2 i'r Adroddiad hwn ceir dyfyniad o'r e-bost a anfonwyd allan i'r holl Aelodau ar 17 Ebrill 2014 yn nodi canfyddiadau'r Adolygiad. Mae'r llythyr hwnnw yn atgoffa Aelodau o'r angen o dan eu Côd Ymddygiad iddynt gofrestru'r holl roddion a lletygarwch a dderbyniwyd, o fewn 28 diwrnod i'w derbyn, a lle bo'r rhodd neu'r lletygarwch yn mynd dros y trothwy £20. Cafodd y nodyn atgoffa hwn ei gynnwys yn benodol oherwydd bod y Pwyllgor Safonau yn bryderus bod cyn lleied o ddatganiadau wedi eu gwneud. Wrth gwrs, ni allai'r Pwyllgor ddweud prun a oedd yna unrhyw fethiant o ran datgan rhoddion a lletygarwch, neu nad oedd unrhyw roddion neu letygarwch angen eu datgan.

**Cwestiynau a Ofynnir yn Aml ar Roddion a Lletygarwch**

O ystyried canfyddiadau'r Pwyllgor Safonau yn yr Adolygiad, a'r ffaith bod gan y Cyngor eisoes Brotocol cyfredol a chynhwysfawr sy'n cynghori Aelodau ar yr egwyddorion sy'n sylfaenol i gofrestru rhoddion a lletygarwch (yn adran 5.9 y Cyfansoddiad) rydym wedi llunio dogfen ddrafft a elwir "Cwestiynau a Ofynnir yn Aml ar Roddion a Lletygarwch " sy'n ceisio rhoi sylw i rai o'r materion amlwg sy'n codi o'r agwedd hon o'r Côd a'r Protocol a'r bwriad yw ei gylchredeg i Aelodau fel nodyn briffio yn unol â'r system sydd eisoes wedi ei mabwysiadu. Mae copi o'r drafft ynghlwm yn Atodiad 3.

**Argymhelliad**

Bod y Pwyllgor Safonau yn:-

(i) cymeradwyo / newid y ddogfen drafft yn Atodiad 3;
(ii) awdurdodi ei gyhoeddi fel nodyn briffio i Aelodau;
(iii) yn awgrymu unrhyw feysydd eraill allai ffurfio nodiadau briffio defnyddiol.

# ATODIAD / APPENDIX 1

**Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 – Canllawiau Cryno i Gynghorwyr**

Mae nifer o etholwyr yn disgwyl i'w safbwyntiau ar faterion lleol gael eu lleisio gan eu Cynghorwyr. Disgwylir yn aml i Gynghorwyr arwain ar y farn gyhoeddus yn eu hardaloedd ac i siarad yn gyhoeddus ar faterion sydd yn gynhennus, sydd o arwyddocâd neu sy'n bwysig. Yn aml iawn fe ofynnir i Gynghorwyr wneud datganiadau cyhoeddus ar faterion pan mai ond ychydig o'r ffeithiau perthnasol sy'n wybyddus.

Yn aml iawn mae Cynghorwyr yn gallu lleisio safbwyntiau cyhoeddus ar nifer o faterion heb unrhyw bryder. Fodd bynnag, fe all anawsterau godi lle mae'r Cynghorwyr hynny hefyd yn rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar yr union faterion y disgwylir iddynt leisio safbwyntiau cyhoeddus arnynt.

Dylai'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau mewn awdurdodau lleol weithredu fel ceidwaid y budd cyhoeddus. Rhaid gwneud penderfyniadau yn ôl yn ystyriaethau perthnasol gan anwybyddu materion amherthnasol. Rhaid gwneud penderfyniadau gyda meddwl agored. Gall siarad yn gyhoeddus yn groch a phendant roi'r agwedd bod meddyliau wedi eu cau ac eisoes wedi eu gwneud. Bydd hyn yn peri perygl i'r rheini sy'n gwneud y penderfyniad, sef y Cyngor ei hun a'r Cynghorydd penodol.

Fe all y rhai sy'n rhoi'r argraff eu bod eisoes wedi gwneud eu meddwl i fyny ar fater cyn i'r penderfyniad gael ei wneud yn wirioneddol fod yn agored i honiadau eu bod o blaid rhyw fater neu eu bod eisoes wedi gwneud eu penderfyniad arno. Fe all penderfyniad o'r fath fod yn destun her gyfreithiol yn erbyn y penderfyniad ac fe all y Cynghorydd fod yn destun cwyn.

Mae'r Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn ceisio cywiro'r diffyg cydbwysedd canfyddiadol hwn rhwng cynrychioli safbwyntiau lleol ar fater a gwneud penderfyniad ar yr un mater.

Dywed Adran 25 y Ddeddf nad yw'n bosibl cymryd yn ganiataol bod y sawl sy'n gwneud penderfyniad wedi cau ei feddwl i fater, nac yn euog o beidio â bod yn ddiduedd neu fod wedi gwneud penderfyniad ymlaen llaw, ond oherwydd ei fod wedi mynegi barn cyn hynny ar y mater hwnnw.

Nid yw'n glir a fydd y darn hwn o ddeddfwriaeth yn newid y gyfraith yn sylfaenol yn y maes hwn ond y sefyllfa ar hyn o bryd yw y gall Cynghorwyr fynegi barn ar faterion cyn bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y materion hynny, **cyn belled ag y defnyddir rhywfaint o grebwyll.**

Pan yn gwneud sylwadau cyhoeddus ar faterion lle byddant, yn y dyfodol, hefyd yn gwneud penderfyniadau arnynt, ni ddylai Cynghorwyr fynegi eu safbwyntiau ar y rhinweddau mewn termau digamsyniol. Gallant ddatgan eu safbwynt ond fe ddylai Cynghorwyr bob amser ei gwneud yn glir y bydd yn rhaid iddynt, fel y rhai sy'n

gwneud penderfyniad, ystyried y mater o'r newydd cyn y gwneir y penderfyniad. Mae hyn yn golygu adolygu'r holl wybodaeth berthnasol sydd o'u blaenau cyn gwneud y penderfyniad.

Drwy gymryd yr agwedd hon at faterion, gall Cynghorwyr fynegi safbwynt cychwynnol ar fater (a elwir yn dechnegol yn rhagdueddiad) ond heb roi eu hunain a'r Cyngor mewn perygl o'u cael yn euog o beidio â bod yn ddiduedd neu o ragbenderfynu.

Er y gall y mater hwn achosi perygl, fe all ymagwedd ofalus a chytbwys ganiatáu i Gynghorwyr fynegi safbwyntiau cychwynnol ar faterion a chadw'r hawl i wneud y penderfyniad ar yr un materion. Yn ogystal â'r gallu i wneud sylwadau cyhoeddus, mae hyn yn golygu y gall Cynghorwyr sydd hefyd yn Aelodau o Gynghorau Tref a Chymuned, siarad a phleidleisio ar faterion y byddant y nes ymlaen yn eu hystyried yn eu rôl fel Cynghorwyr Sir.

Mae'n debygol y bydd y llysoedd dros amser yn penderfynu achosion yn ymwneud ag Adran 25 Deddf Lleoliaeth 2011 ac y gallai hynny effeithio'r sefyllfa gyfreithiol. Os bydd yna unrhyw newid arwyddocaol neu sylfaenol fyddai'n effeithio ar y cyngor yn y nodyn hwn, yna byddwn yn hysbysu'r Aelodau.

Yn y cyfamser, os oes gennych unrhyw amheuaeth am sefyllfa benodol neu gyfres o amgylchiadau yna cysylltwch â ni am gyngor cyfreithiol os gwelwch yn dda ar 01248 752586 lbxcs@ynysmon.gov.uk 01248 752134 rwjcs@ynysmon.gov.uk neu 01248 752563 apxce@ynysmon.gov.uk

**Caffael Cyhoeddus – Canllawiau byr i Gynghorwyr**

## Rhagarweiniad

O bryd i'w gilydd, efallai y gofynnir i chi roi cyngor i'r cyhoedd ar gontractau'r Cyngor a materion caffael cyhoeddus. Yn benodol, efallai y bydd y sector busnes leol yn gofyn am eich cyngor ynghylch ennill gwaith gan y Cyngor.

Oherwydd bod y Cyngor yn gorff cyhoeddus, mae'n cael ei gyfrif fel Awdurdod "Gwerth Gorau" sydd â dyletswydd statudol i sicrhau gwerth gorau am arian ar gyfer yr holl gontractau y mae'n eu gwneud gyda chyflenwyr nwyddau ac/neu wasanaethau. Mae'r ddyletswydd statudol hon yn golygu na all bob amser roi contractau i fusnesau lleol oherwydd nad ydynt efallai'n cynnig y gwerth gorau am arian i'r Cyngor o gymharu â'u cystadleuwyr. Mae cyfyngiadau hefyd sy'n rhwystro'r Cyngor rhag rhannu contractau'n ddarnau llai o waith. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn dymuno annog busnesau lleol i dendro am waith a'u cynorthwyo i ddeall y broses gontractio fel eu bod yn cael y cyfle gorau i lwyddo i gael gwaith gan y Cyngor.

## Terfynau Contract

Mae'r tabl isod yn nodi'r camau y mae dyletswydd gyfreithiol ar y Cyngor i'w cymryd cyn y bydd yn gosod contract ar gyfer prynu nwyddau neu wasanaethau:-

| **Gwerth y Contract** | **Camau y mae'n rhaid i'r Cyngor eu cymryd** |
|---|---|
| **£0 – £3,000.00** | Ymholiadau anffurfiol. |
| **£3,000.00 - £30,000.00** | Rhaid cael o leiaf dri dyfynbris ffurfiol. |
| **£30,000.00 +** | Rhaid glynu wrth weithdrefnau tendro llawn y Cyngor yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contract a gwadd tendrau ar gyfer y contract. |

Gellir gweld y RhGC trwy ddilyn y ddolen yma - http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/councillors-democracy-and-elections/constitution/constitution-part-4-rules-of-procedure/constitution-49-contract-procedure-rules/

## Rheolau Caffael yr UE

Oherwydd bod y Cyngor yn yr Undeb Ewropeaidd rhaid iddo hefyd gydymffurfio gyda Rheoliadau UE cymhleth mewn perthynas â chaffael cyhoeddus os yw gwerth y contract o fewn y trothwyon ariannol a bennwyd gan yr UE, sydd, ar hyn o bryd, fel a ganlyn:-

| Contract ar gyfer gwaith(h.y. contractau o fath adeiladu) | Contractau ar gyfer Cyflenwyr a Gwasanaethau. |
|---|---|
| **£4,332,012.00** | **£172,514.00** |

Adolygir y trothwyon ariannol UE hyn bob dwy flynedd a gellir gweld y ffigyrau diweddaraf trwy ddilyn y ddolen a ganlyn:- <http://www.ojec.com/Threshholds.aspx>. Pa fo Rheoliadau'r UE yn berthnasol, rhaid i'r Cyngor hysbysebu'r contract yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Efallai hefyd y bydd raid hysbysebu contractau sydd islaw'r gwerth a bennwyd yr UE pan fo'r contract yn debygol o fod o ddiddordeb i gontractwr mewn gwlad UE arall (diddordeb trawsffiniol).

**Beth mae'r Cyngor yn ei wneud i gynorthwyo busnesau lleol i dendro am waith?**

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor a'i gydweithwyr yn rhoi'r cymorth isod i annog busnesau lleol i dendro am gontractau gyda'r Cyngor:-

1. Darperir mynediad i "Menter a Busnes" sy'n helpu Busnesau Bach a Chanolig i ddeall gofynion contracti'r Cyngor;
2. Cofrestru ar www.sell2wales.gov.uk Os yw busnes lleol yn dymuno cofrestru diddordeb mewn bod yn ddarpar gyflenwr i CSYM, gall gofrestru ei fanylion ar y wefan hon a chael diweddariadau pan fo hysbyseb yn cael ei gosod gan CSYM.
3. Mae Strategaeth Gaffael yn cael ei drafftio ar hyn o bryd gan y Rheolwr Caffael a fydd yn amlinellu'r camau y bydd rhaid i gyflenwyr, gan gynnwys gyflenwyr lleol, sy'n dymuno tendro am waith eu cymryd. Bydd yr holl Aelodau'n cael cyfle i roi mewnbwn i'r strategaeth hon cyn iddi gael ei mabwysiadu.

Mewn adroddiad arbennig ar Osod Tai a Digartrefedd, dywedodd yr Ombwdsmon ar gyfer Llywodraeth Lleol yng Nghymru fod nifer sylweddol o Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru hyd yma heb fabwysiadu polisïau gosod tai sy'n cydymffurfio'n llawn gyda'r gyfraith ac sy'n cymryd ystyriaeth briodol o'r canllawiau statudol perthnasol.

Mewn cydymffurfiaeth â'r gofynion cyfreithiol, mae ein Cyfansoddiad yn dirprwyo awdurdod i'r Pennaeth Gwasanaeth (Tai) i "reoli, cynnal, cyhoeddi, datblygu, cymeradwyo, gweinyddu, penderfynu a gweithredu....: gosod tenantiaethau; gosod tai dros dro gan gynnwys llety argyfwng (hyd at 2 flynedd); a (gwasanaethau sy'n ymwneud â digartrefedd. Cefnogir hyn gan Adran 18 Polisi Gosod Tai Ynys Môn sy'n cadarnhau fod cyfrifoldeb am weithrediad y cynllun gosod wedi ei ddirprwyo i'r Pennaeth Gwasanaethau Tai a'i staff.

## Yr hyn y gall Aelodau ei wneud

- Mae Aelodau Lleol yn gyfrifol am gymeradwyo, mabwysiadu a monitro gweithrediad polisïau gosod tai sy'n cydymffurfio gyda Deddf Tai 1996 (fel y cafodd ei diwygio gan Ddeddf Digartrefedd 2002), Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Osod Llety a Digartrefedd 2003 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ynghyd â Deddfwriaeth Cyfleon Cyfartal. Ymhellach, mae aelodau yn rhan o unrhyw adolygiadau a wneir o'r Polisi Gosod i sicrhau ei fod yn cwrdd â'i amcanion, ac i sicrhau gweithrediad systemau agored ac atebol sy'n cydymffurfio gydag amcanion polisi.

- Bydd Aelodau Lleol sy'n holi am statws eiddo yn cael gwybod a yw'r eiddo hwnnw'n wag ar hyn o bryd ynteu ydyw wedi ei osod. Fodd bynnag, i gydymffurfio gyda **Deddf Diogelu Data 1998,** ni ellir datgelu gwybodaeth bersonol am y tenant newydd. Ymhellach, gall yr Aelodau gysylltu â'r Adran Gosod Tai i holi am argaeledd unrhyw eiddo gweigion yn eu hardaloedd ar unrhyw adeg.

- Gall Aelodau Lleol wneud **ymholiadau ysgrifenedig** ar ran ymgeiswyr **yn eu hetholaeth yn unig** mewn perthynas â statws eu cais ar y gofrestr dai ar yr amod bod gan y Cyngor ganiatâd **ysgrifenedig gan yr ymgeisydd** i'r Aelod wneud hynny. Hefyd, gall Aelodau fynychu apwyntiadau gydag ymgeiswyr ac a drefnwyd ymlaen llaw os yw ymgeiswyr yn dymuno gwneud ymholiadau pellach am eu cais, neu i drafod eu hamgylchiadau unigol, neu i sicrhau bod yr holl ffeithiau yn achos yr ymgeisydd wedi eu cymryd i ystyriaeth wrth asesu'r cais.

- Gall Aelodau Lleol gynorthwyo ymgeiswyr trwy sicrhau eu bod yn deall pwysigrwydd cwblhau'r ffurflen yn gywir a chynnwys yr holl ddogfennau cefnogol gyda'r cais. Ymhellach, mae'n bwysig bod yr Aelodau yn gyfarwydd gyda'r system bwyntiau, fel bod modd iddynt ateb cwestiynau gan y cyhoedd a rhoi cyngor cyffredinol ar y broses gosod tai.

## Yr hyn na chaiff Aelodau ei wneud

- Penderfynu i bwy y bydd eiddo'n cael ei osod a chymryd rhan yn y penderfyniad gosod. Mae tai'n cael eu gosod yn unol â Pholisi Gosod y Cyngor. Mae'r holl geisiadau'n cael eu hasesu ac yn cael nifer benodol o bwyntiau yn seiliedig ar amgylchiadau tai presennol yr ymgeisydd.

*SYLWER: Mehefin 2013, oherwydd effaith y diwygiadau lles/tai newydd, bydd angen i'r Cyngor adolygu'r Polisi Gosod Tai yn gyfan gwbl er mwyn asesu a yw'r polisi'n gydnaws â'r newidiadau o ran cosb ariannol os nad oes digon o bobl yn byw yn y tŷ ac ati...*

## Nodyn Briffio i Aelodau

## Rhyddid Mynegiant Gwleidyddol v Y Côd Ymddygiad

### 1. Côd Ymddygiad yr Aelodau ("y Côd")

Ymysg pethau eraill, mae'n rhaid i Aelodau, yn unol â'r Côd:-

- Drin eraill gyda pharch ac ystyriaeth
- Peidio â bwlio na hambygio eraill
- Peidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid ei hystyried yn rhesymol fel un sy'n dwyn anfri ar rôl yr Aelod neu'r Cyngor.

### 2. Mynegiant Gwleidyddol

Mae achosion a benderfynwyd gan y Llys dros y blynyddoedd, ynghyd ag achosion sy'n dal i esblygu, wedi sefydlu'r diffiniad isod o'r hyn sy'n cael ei gyfrif fel mynegiant gwleidyddol:-

**"Gwybodaeth am faterion sy'n ymwneud â threfnu bywyd economaidd, cymdeithasol a gwleidyddol y wlad…"**

Beth mae hyn yn ei olygu mewn gwirionedd ac yn ymarferol? Mae'r diffiniad o sylwadau sy'n cael eu hystyried yn fynegiant gwleidyddol yn un eang, a gall gynnwys sylwadau sy'n ymwneud â sut mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal, sut mae sefydliadau'n cael eu gweinyddu a sut mae pobl yn cyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus.

Mae'r Uchel Lys a'r Ombwdsmon wedi dweud yn benodol bod disgwyl i wleidyddion (ac Uwch Swyddogion) fod â "chroen tewach" nag eraill; yn ôl pob tebyg oherwydd eu bod wedi dewis gweithredu o fewn amgylchedd gwleidyddol.

Mae'r disgwyliad hwn yn arbennig o berthnasol i drafodaethau gwleidyddol, sef trafodaethau a ddisgrifiwyd yn aml gan yr Ombwdsmon fel "taro a gwrthdaro". Mae'n glir bod sylwadau am wleidyddion eraill sy'n wawdlyd, yn goeglyd neu'n ddychanol yn cwrdd â'r diffiniad o fynegiant gwleidyddol. Fodd bynnag, os gellir dehongli'r sylwadau hynny'n rhesymol fel rhai maleisus, hiliol, homoffobig ac ati, neu fel rhai sydd mor eithafol eu bod yn amhriodol, mae sylwadau o'r fath yn colli'r diogelwch cyfreithiol ychwanegol a roddir i fathau eraill o fynegiant gwleidyddol.

Nid yw sylwadau a ddiffinnir fel rhai "gwleidyddol" wedi eu cyfyngu'n unig i'r rheini a wneir o fewn cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor a gallant gynnwys sylwadau gan Aelodau i'r cyfryngau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol. Mae'n cynnwys deunydd ysgrifenedig yn ogystal â deunydd llafar.

Dim ond y sylwadau hynny y gellir ystyried yn rhesymol (h.y. yn wrthrychol) eu bod yn ymosodol iawn, yn warthus, yn hiliol, yn faleisus neu'n gwbl amhriodol yn yr iaith a ddefnyddir sy'n debygol o gwrdd â throthwy'r Ombwdsmon ar gyfer ymchwilio iddynt mewn achosion pan fo'r pwnc yn un gwleidyddol.

Yn yr un modd, pan fo Aelodau yn codi "materion gwleidyddol" gydag Uwch Swyddogion gall yr Ombwdsmon hefyd wrthod ymchwilio os yw ef/hi o'r farn bod gan yr Aelod hawl i gwestiynu'r Swyddog am bryderon dilys. Wrth gwrs mae'r cyd-

destun yn hollbwysig a byddai statws y Swyddog, rôl yr Aelod a'r ffordd yr oedd yr Aelod wedi dewis mynd ar drywydd y mater oll yn ffactorau perthnasol.

**3. <u>Gwrthdaro gyda'r Côd</u>**

Mae gwrthdaro posib rhwng darpariaethau'r Côd, fel y disgrifir nhw ym mharagraff 1 uchod, a hawl Aelodau i feirniadu gwleidyddion eraill.

Ym mharagraff 4 isod nodir rhai enghreifftiau o achosion a benderfynwyd ac sy'n rhoi blas ar sut mae'r llysoedd yn gweld pethau ar hyn o bryd:-

**4. <u>Enghraifft A – R (ar sail Calver) v Panel Dyfarnu Cymru [2012] EWHC 1172</u>**

Yn yr achos hwn, penderfynodd y Panel Dyfarnu (y Pwyllgor Safonau Cenedlaethol i bob pwrpas) gadarnhau dyfarniad y Pwyllgor Safonau fod Aelod wedi methu â dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill trwy wneud sylwadau ar-lein am gyd-aelodau a'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg.

Cafodd yr Aelod gerydd gan y Pwyllgor Safonau ac ar ôl i'w apel i'r Panel Dyfarnu fethu, fe wnaeth gais am adolygiad barnwrol o'r achos yn yr Uchel Lys. Roedd y Llys yn fodlon bod y sylwadau a wnaed, a oedd yn niferus ac yn aml, yn rhai coeglyd a dychanol ond, oherwydd bod y rhan fwyaf o'r cynnwys yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg a gallu ei Aelodau a'i Glerc (Cyngor Cymuned oedd hwn), daeth y Llys i'r casgliad bod y sylwadau yn disgyn o fewn y diffiniad o fynegiant gwleidyddol. O'r herwydd, roeddent yn denu diogelwch cyfreithiol ychwanegol dan Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chasglwyd felly fod dyfarniad y Pwyllgor Safonau, a gafodd ei gadarnhau gan y Panel Dyfarnu, yn ymyrraeth anghymesur gyda hawl yr Aelod i ryddid mynegiant gwleidyddol. Cafodd y penderfyniad gwreiddiol i roi cerydd i'r Aelod ei roi o'r neilltu felly gan y Llys.

**<u>Enghraifft B - Livingstone v Panel Dyfarnu Lloegr [2006] EWHC 2533 (Gwein.); [2006]</u>**

Mae'r Aelodau'n siwr o gofio'r achos hwn, pan siaradodd Maer Llundain (ar y pryd) gyda gohebydd yn ei gyffelybu i gard mewn gwersyll-garchar. Casglodd yr Uchel Lys nad oedd y sylw hwn yn enghraifft o ryddid i fynegiant gwleidyddol oherwydd nad oedd y geiriau wedi eu defnyddio mewn swyddogaeth swyddogol nac wrth i Mr. Livingstone gyflawni ei swyddogaeth fel Maer. O'r herwydd, nid oedd y Côd Ymddygiad yn berthnasol ac, wrth gwrs, os nad oedd y Côd yn berthnasol nid oedd modd iddo gael ei dorri.

Fodd bynnag, fe gasglodd y Llys na fyddai'r Maer fod wedi bod ag unrhyw hawl i ddiogelwch uwch ar gyfer mynegiant gwleidyddol petai'r Côd yn berthnasol, a hynny oherwydd nad oedd yn mynegi barn wleidyddol ond, yn hytrach, ei fod yn "indulging in offensive abuse."

I'n dibenion ni, petai'r achos hwn yn digwydd yn awr dan y Côd ar gyfer Cymru, byddai'r Maer wedi bod yn torri'r Côd oherwydd bod ein Côd ni'n dweud yn benodol bod y ddyletswydd i beidio â dwyn anfri ar rôl yr Aelod yn berthnasol pan fo'r Aelod yn gweithredu mewn unrhyw swyddogaeth (gan gynnwys swyddogaeth bersonol). Cafodd y Côd yng Nghymru ei newid o ganlyniad i'r penderfyniad yn achos <u>Livingstone.</u>

Sut bynnag, mae sylwadau'r Llys ynghylch dehongli mynegiant gwleidyddol yn ddilys a dibynnir yn rheolaidd arnynt mewn achosion Llys.

**Enghraifft C – Y Cyng. Heesom - APW/005/2010-011/CT**

Yn yr achos hwn roedd nifer o honiadau a chasgliadau ar bob un o'r materion. O ganlyniad i'w heffaith net fe gafodd yr Aelod ei anghymwyso. Fodd bynnag, wrth asesu rhai o'r honiadau daeth y Llys i gasgliad penodol fod honiadau'r Aelod fod gwasanaeth/ adran o'r Cyngor yn "shambolic" ac yn "shambles", yn fynegiant gwleidyddol oherwydd eu bod yn ymwneud â'r ffordd yr oedd y Cyngor yn cael ei redeg. Roedd y sylwadau felly yn disgyn o fewn y diogelwch yn Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol a chasglwyd nad oedd y sylwadau felly'n torri'r Côd.

**Enghraifft D – Y Cyng. Jones - APW/004/2012-013/AT**

Yn yr achos hwn, penderfynodd y Llys nad oedd sylwadau'r Cynghorydd Jones wedi eu cyfeirio tuag at gyd-aelod ond at Swyddog. Fel gweithiwr cyflogedig, dylai bod gan y swyddog hawl i gael ei ddiogelu rhag ymddygiad amharchus a rhag cael ei hambygio (h.y. yn unol â chyfraith cyflogaeth). O'r herwydd, nid oedd yr ymddygiad yn disgyn o fewn y trefniadau diogelwch ar gyfer "mynegiant gwleidyddol". Byddwch yn sylweddoli felly bod yr achos hwn, a benderfynwyd ar ôl 4A uchod, yn awgrymu bod y diogelwch uwch ar gyfer Aelodau wedi ei lastwreiddio pan fo Aelodau'n gwneud sylwadau sy'n ymwneud â Swyddogion.

## 5. Casgliad

Felly, os yw unrhyw sylw a wneir gan wleidydd yn "fynegiant gwleidyddol" (mae hwn wedi ei ddiffinio'n eang) bydd yn denu diogelwch uwch ac mae'n annhebygol y bydd yr Ombwdsmon yn ymchwilio i achosion o'r fath os cyflwynir cwyn.

Fodd bynnag, ni roddir diogelwch uwch os gwneir sylwadau sy'n atgas iawn neu'n ddifrïol iawn mewn unrhyw ffordd, yn arbennig felly os ydynt yn faleisus, yn rhan o ymgyrch sydd wedi ei thargedu neu os ydynt yn hiliol, yn homoffobig ac ati. Mae'r prawf yn un gwrthrychol. Hynny yw, nid yw'r bwriad a'r effaith yn berthnasol o ran a yw'r Côd wedi ei dorri ai peidio; er y gallent fod yn berthnasol i'r gosb.

Mae sylwadau a wneir yng ngwres trafodaeth, neu sylwadau unwaith ac am byth, yn hytrach na phatrwm o ymddygiad, hefyd yn llai tebygol o ddenu diddordeb yr Ombwdsmon.

Lynn Ball
Pennaeth Swyddogaeth(Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro

# ATODIAD / APPENDIX 2

Dyfyniad o ebost I holl Aelodau 17 Ebrill 2014

**Cofrestr o Roddion a Lletygarwch**

9. Hoffai'r Pwyllgor atgoffa'r Aelodau o'u dyletswydd i gofrestru unrhyw rodd neu letygarwch dros £20. Ychydig iawn o ddatganiadau a wnaed ond mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gallai hynny fod yn gwbl ddilys, ond atgoffir Aelodau i adolygu'r Protocol Rhoddion a Lletygarwch a welir yn rhan 5.9 y Cyfansoddiad. Rhaid cofrestru ar-lein unrhyw roddion a lletygarwch y mae angen eu cofrestrucyn pen 28 diwrnod ac, wrth gwrs, mae hon yn ddyletswydd sy'n parhau.

Islwyn Jones
Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau / Vice-Chair of the Standards Committee
Cyngor Sir Ynys Môn / The Isle of Anglesey County Council
Document: CC-017471-AP/208602

# ATODIAD / APPENDIX 3

Mae’r Pwyllgor Safonau yn adolygu’r 3 cofrestr gyhoeddus o ddiddordebau’r Aelodau bob blwyddyn.

Un o’r gofynion dan y Côd Ymddygiad yw bod Aelodau’n cofrestru yn y gofrestr rhoddion a lletygarwch, yr holl roddion a lletygarwch a dderbynnir ac y gwyddys neu yr amcangyfrifir eu bod yn werth £20.00 neu ragor a hynny o fewn 28 diwrnod o’u derbyn.

Mae’r gofrestr ar gael i Aelodau ei chwblhau ar-lein yn http://www.anglesey.gov.uk/Journals/2012/01/10/constitution-5-gifts-form.pdf

Yn adran 5.9 y Cyfansoddiad, ceir Protocol ar Roddion a Lletygarwch a luniwyd gan y Pwyllgor Safonau i gynorthwyo Aelodau i benderfynu pryd y mae’n briodol iddynt gofrestru lletygarwch yn arbennig.

Bydd yr Aelodau'n gwerthfawrogi mai pwrpas y gofrestr yw sicrhau nad yw unrhyw gamau gweithredu / penderfyniadau a gymerir gan Aelodau, yn eu swyddogaeth fel cynghorwyr, yn cael eu dylanwadu gan ffafriaeth, neu’r canfyddiad o ffafriaeth, ac nid yn unig ffafriaeth a gyfyd o ddiddordebau personol, ond hefyd o unrhyw roddion / lletygarwch a dderbynnir gan bartïon â diddordeb.

Ar gais y Pwyllgor Safonau, ac i gynorthwyo Aelodau ymhellach i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r polisi ynghylch cofrestru rhoddion a lletygarwch, ceir yma restr o gwestiynau nodweddiadol a ofynnir gan Aelodau ar y pwnc yma, ynghyd â'n cyngor ni yn eu cylch.

Os bydd angen cyngor arnoch ar fater penodol yn awr neu ar unrhyw adeg, yna cysylltwch ar unwaith os gwelwch yn dda gyda’r Swyddogion isod yn yr Adain Gyfreithiol:

- Lynn Ball, rhif ffôn 01248 752586, E-bost: lbxcs@ynysmon.gov.uk
- Robyn Wyn Jones, rhif ffôn 01248 752134, E-bost: rwjcs@ynysmon.gov.uk
- Awena Walkden, rhif ffôn 01248 752563, E-bost: awxce@ynysmon.gov.uk.

Yr un modd, os bydd gennych gwestiwn cyffredinol yn codi o’r gofrestr neu’r protocol, yna gadewch i ni wybod os gwelwch yn dda a gallwn ddiwygio’r ddogfen hon i gynnwys unrhyw faterion eraill cysylltiedig yr hoffech eu gweld yn cael sylw yma.

**CWESTIYNAU A OFYNNIR YN FYNYCH YNGLŶN Â’R GOFRESTR RHODDION A LLETYGARWCH:**

1. **Beth sy’n cyfrif fel lletygarwch?** - bydd hyn fel arfer yn ymwneud â bwyd neu ddiod a ddarperir i chwi yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngol ond gall hefyd gynnwys y ddarpariaeth o adloniant, teithio neu lety yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngol. Nodwch os gwelwch yn dda, os byddwch yn cael gwahoddiad i fynychu digwyddiadau sydd â gwerth masnachol, hyd yn oed os na fyddwch yn derbyn tocyn gwirioneddol, mae hyn yn dal i gyfrif fel lletygarwch.



DRAFT

2. **Beth a olygir gan rodd? -** gall hon fod yn eitem neu'n brofiad gwirioneddol e.e. tocynnau theatr, tocynnau i gyngerdd, gwahoddiad i ddigwyddiad chwaraeon ac ati a dderbynnir yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngol. Dylid cofrestru fel rhoddion unrhyw docynnau a dderbynnir yn rhad ac am ddim neu am bris gostyngol.

3. **Pryd y mae'n rhaid i mi yn gyfreithiol gofrestru rhodd neu letygarwch? -** nid yw'r gofyniad ond yn ymwneud â rhoddion neu letygarwch yr ydych yn eu derbyn yn rhinwedd eich swydd fel Aelod o'r Cyngor Sir (nid oes raid i Gynghorau Cymuned gadw cofrestr gyfatebol ar gyfer eu Haelodau nhw) a lle y gwyddoch, neu lle yr ydych yn tybio yn rhesymol, bod y rhodd neu'r lletygarwch yn werth £20 neu fwy.

   Y Cyngor llawn sydd wedi pennu'r trothwy o £20.00 ar gyfer cofrestru ac efallai y gofynnir i chi o bryd i'w gilydd i adolygu a diwygio'r trothwy hwnnw.

4. **Beth os mai'r Cyngor sy'n darparu'r lletygarwch? -** nid oes raid i chi gofrestru lletygarwch a ddarperir gan y Cyngor os yw'n gysylltiedig â busnes y Cyngor. Felly, er enghraifft, nid oes raid i chi gofrestru teithio a llety sy'n ymwneud â digwyddiadau hyfforddi neu gyfarfod, cynhadledd neu dderbyniad dinesig.

5. **Beth os mai corff cyhoeddus arall sy'n darparu'r lletygarwch? -** Mae cyrff cyhoeddus eraill yn "drydydd partïon" ac o'r herwydd, dylech ddatgan yn y gofrestr unrhyw letygarwch y byddwch yn ei dderbyn sy'n uwch na'r trothwy. Mae hyn yn cynnwys lletygarwch a gewch gan gyrff allanol y cawsoch eich penodi iddynt gan y Cyngor Sir.

6. **Beth os mai datblygwr/buddsoddwr posibl sy'n darparu'r lletygarwch? -** Fel Aelod, rhaid i chi bob amser weithredu er budd y cyhoedd, a pheidio â chael eich dylanwadu neu ymddangos fel pe baech wedi eich dylanwadu wrth gyflawni eich dyletswyddau gan gynnig neu'r posibilrwydd o gynnig, anogaeth, gwobr ac ati gan ddatblygwr/buddsoddwr. Rhaid i chi gymryd gofal arbennig pan gynigir i chi letygarwch o ffynonellau o'r fath ac yn arbennig felly mewn achosion pryd y gwyddoch fod gennych rôl benodol a allai ddylanwadu ar y canlyniad, e.e. y byddwch yn aelod o bwyllgor a fydd yn gwneud penderfyniad sy'n cael effaith ar fuddiannau'r datblygwr/buddsoddwr.

   Os yw'r lletygarwch yn uwch na'r trothwy ond serch hynny, yn gysylltiedig â ac yn gymesur â chyflawni busnes y Cyngor ac er budd gorau'r Cyngor, yna mae'n rhesymol derbyn lletygarwch gan sicrhau bob amser eich bod yn ei ddatgan yn y gofrestr. Nid pwrpas y Cod yw atal rhedeg busnes y Cyngor mewn modd cyfreithlon ond yn hytrach, i sicrhau fod hynny'n cael ei wneud mewn modd tryloyw. Felly, er enghraifft, os yw datblygwr yn dymuno cynnal derbyniad ar gyfer Aelodau, er enghraifft i nodi eu cynigion datblygu ac i ateb cwestiynau a bod lletygarwch yn cael ei ddarparu fel rhan o'r broses honno, yna mae lletygarwch o'r fath yn dderbyniol hyd yn oed os yw'n uwch na'r trothwy, ar yr amod y caiff ei ddatgan yn y gofrestr. Wrth gwrs, ni fyddai lletygarwch gor-foethus neu letygarwch sy'n anghymesur â'r busnes dan sylw yn briodol hyd yn oed pe bai'n cael ei gofrestru.

   Rhaid i Aelodau hefyd fod yn ymwybodol o'r ffaith bod ganddynt ymrwymiad i fod â chymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl ynghylch datblygiadau/buddsoddiadau

DRAFT

posibl yn arbennig mewn amgylchiadau lle mae eu wardiau'n cael eu heffeithio neu lle maent yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

***Dweud rhywbeth yma am y Rheolau Gweithdrefn Cynllunio?***

7. **Beth os mai contractwr/cyflenwr posibl sy'n darparu'r lletygarwch? –** Gweler hefyd yr ymateb i gwestiwn 6 sydd yn berthnasol i'r cwestiwn hwn.

   Atgoffir aelodau bob rhaid iddynt bob amser weithredu er budd cyffredinol y cyhoedd, yn hytrach na gweithredu er budd sefydliad neu unigolyn penodol ac y byddant yn torri'r Cod Ymddygiad os byddant mewn modd amhriodol yn rhoi mantais neu anfantais i unrhyw gontractwr/cyflenwr. Gallai'r cyhoedd gamddeall derbyn lletygarwch gan gontractwr/cyflenwr posibl oni bai ei bod yn glir bod yr amgylchiadau sy'n ymwneud â'r lletygarwch o fudd i'r Cyngor. Digwyddiad arbennig o sensitif er enghraifft fyddai achos lle mae'r Cyngor yn mynd drwy broses gaffael gystadleuol gyda chontractwr/cyflenwr. Yn yr amgylchiadau hynny, cynghorir Aelodau i beidio â chyfarfod â'r contractwyr neu'r cyflenwyr heb yn gyntaf gael cyngor gan y Swyddogion sy'n arwain y broses gaffael.

8. **Sut fedra i weithio allan werth rhodd neu letygarwch? -** Dylid defnyddio safon wrthrychol resymol wrth asesu gwerth rhodd. Felly, er enghraifft, os ceir cyfres o roddion bychan o'r un ffynhonnell dros gyfnod byr o amser a bod gwerth y rhoddion i gyd yn fwy na £20.00, yna dylid eu cofrestru.

   O ran asesu gwerth lletygarwch, dylech amcangyfrif faint y byddid yn disgwyl i berson ei dalu am y ddarpariaeth gyfatebol ar sail fasnachol. Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynglŷn â'r gwerth, yna byddai'n well i chi gofrestru'r lletygarwch gan gadw mewn cof bob amser nad oes raid cofrestru lletygarwch a ddarperir gan y Cyngor os yw'n gysylltiedig â rhedeg busnes y Cyngor hyd yn oed os yw'n uwch na'r trothwy. Gweler paragraff 4.

9. **Beth os wyf yn cael cynnig rhodd neu letygarwch ond yn penderfynu peidio â'i dderbyn?** - Os nad ydych yn derbyn y rhodd neu'r lletygarwch, yna nid oes raid i chi eu cofrestru ar yr amod y gwrthodir unrhyw roddion a'u dychwelyd i'r sawl sy'n eu rhoddi. Os ydych fodd bynnag yn derbyn rhodd ac yn ei basio ymlaen i berson arall i'w ddefnyddio, yna rhaid i chwi ei gofrestru oherwydd, yn dechnegol, chwi dderbyniodd y rhodd.

10. **Beth os ydwyf yn cael tocynnau yn rhad ac am ddim?** - Eto, dylid cofrestru'r rhodd neu'r lletygarwch hwn os yw'n cael ei ddarparu gan rywun ac eithrio'r Cyngor ac os yw'n uwch na'r trothwy, hyd yn oed os yw'n gysylltiedig â busnes y Cyngor.

    Dylai unrhyw Aelod sy'n derbyn tocynnau i ddigwyddiadau yn ystod eu dyletswyddau, gofrestru'r tocynnau hynny fel rhoddion.

11. **Rwyf wedi cael tocyn i ddigwyddiad gan Swyddog o'r Cyngor ond nid y Cyngor sy'n trefnu'r digwyddiad. A ddylwn ni gofrestru'r tocyn hwn fel rhodd gan y Cyngor?** - Byddai angen i docynnau a gafodd y Cyngor i'w cylchredeg i Aelodau gael eu cofrestru fel tocynnau oherwydd maent yn parhau i fod yn rhodd gan y rhoddwr i'r Aelodau. Cam gweinyddol yn unig yw ymwneud y



DRAFT

Swyddogion yn y broses hon ac ni fyddai'n cael effaith ar y rheidrwydd i gofrestru'r rhodd os yw'n na'r trothwy.

Dylid nodi enw'r rhoddwr neu drefnydd y digwyddiad ar y ffurflen fel y sawl sydd wedi rhoddi'r rhodd neu'r lletygarwch yn hytrach na'r Gwasanaeth yn y Cyngor neu'r Swyddog unigol a basiodd y rhodd yn ei blaen.

12. **Beth ddylwn i ei wneud o ran derbyn rhodd neu letygarwch os oes gennyf sail resymol i gredu y bydd y rhoddwr efallai yn disgwyl rhyw fath o ffafriaeth yn gyfnewid am hynny?** - Dylech fod yn ymwybodol o Ddeddf Atal Llygredd 1889. Pery'r ddeddf hon mewn grym ac mae'n golygu y gallai derbyn unrhyw rodd, gwobr neu fantais gennych chi fel anogaeth ar gyfer gwneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas â mater neu drafodion penodol, fod yn gyfystyr â chyflawni trosedd. Os oes gennych reswm i gredu bod y cynnig o rodd neu letygarwch mewn rhyw ffordd yn amodol ar neu â "gofynion cysylltiedig", yna dylech wrthod y cynnig a rhoi gwybod i'r Swyddog Monitro am y mater.

13. **Beth os yw Aelodau eraill wedi cael tocynnau yn rhad ac am ddim i ddigwyddiad yr wyf fi hefyd eisiau ei fynychu. A fedraf i ofyn am docyn am ddim i mi fy hun?** - Er nad yw'r Côd Ymddygiad yn delio'n benodol â'r mater hwn, gall ceisio cael tocyn am ddim i chi eich hun fod yn gyfystyr â thorri paragraff 6a y Côd sy'n dweud na ddylech ddefnyddio neu geisio defnyddio eich swydd fel aelod i sicrhau ar gyfer chi eich hun neu unrhyw berson arall fantais neu anfantais.

    Ni ddylech o'r herwydd ofyn neu wahodd cynnig am rodd neu letygarwch yn eich swydd fel Aelod a dylech gymryd gofal hefyd i osgoi rhoddi unrhyw arwydd i unrhyw un y byddech yn agored i gynigion o'r fath.

14. **Beth yw'r berthynas rhwng y gofrestr o roddion a lletygarwch a'r gofrestr o ddiddordebau personol/diddordebau sy'n rhagfarnu?**
    Mae'r rhain yn ddwy gofrestr ar wahân a rhaid cwblhau'r ddwy lle mae'r amodau cofrestru yn berthnasol fel a nodir yn y Côd Ymddygiad. Felly, os byddwch er enghraifft yn mynychu digwyddiad gyda datblygwr i bwrpas cael gwybodaeth a gofyn cwestiynau am ddatblygiad arfaethedig a'ch bod yn derbyn lletygarwch yn y digwyddiad hwnnw sy'n uwch na'r trothwy, yna mae angen ei gofrestru. Os bydd angen i chi wedyn wneud penderfyniad ynglŷn â'r datblygiad, yna dylech yn yr un modd ddatgan y lletygarwch fel diddordeb personol yn y cyfarfod lle mae'r mater yn cael ei drafod/ei benderfynu. Yn yr amgylchiadau hyn, diddordeb personol yn unig fyddai; ni fyddai'n ddiddordeb sy'n rhagfarnu felly byddid yn caniatáu i chi gymryd rhan lawn ynddo. Byddwch yn gwerthfawrogi mai'r rhesymeg y tu ôl i hyn yw bod yn rhaid i'r broses gwneud penderfyniadau fod yn gwbl dryloyw, ond na ddylai derbyn lletygarwch priodol a chymesur yng nghyd-destun busnes y Cyngor eich cau allan rhag gwneud penderfyniadau a chymryd rhan lawn yn y broses.

Gobeithio y bydd y cyngor cyffredinol hwn yn ddefnyddiol i chi.



DRAFFT

This page is intentionally left blank

# ATODIAD / ENCLOSURE D

**CWYNION A GYFLWYNWYD I'R OMBWDSMON AC YMCHWILIADAU A WNAED GANDDO – "O" –YNGHYLCH CYNGHORWYR CYNGOR SIR YNYS MÔN - DIWEDDARIAD**

**UP TO DATE COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCILLORS – UPDATED**

**PWYLLGOR SAFONAU – 12.09.2014 – STANDARDS COMMITTEE**



| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| 1. Cynghorydd Sir / County Councillor | Prif Weithredwr / Chief Executive | (i) 017339<br>(ii) 201304118 | 29.10.13 | 24.07.14 – A Report has been referred to the Standards' Committee for consideration./ Mae adroddiad wedi ei gyfeirio i'r Pwyllgor Safonau i'w ystyried. |
| 2. Cynghorydd Sir / County Councillor | Cynghorydd Cymuned / Community Councillor | (i) 017368<br>(ii) 201304372 | 13.11.13 | 10.04.2014 – Mae'r Ombwdsmon yn parhau i ymchwilio /Ombudsman is still investigating. |
| 3. Cynghorydd Sir / County Councillor | Member of public/aelod o'r cyhoedd. | 17724 | 08.04.2014 | 10.04.2014 – Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio/Ombudsman is investigating. |
| 4. Cynghorydd Sir / County Councillor | Member of public/aelod o'r cyhoedd. | 17726 | 08.04.2014 | 10.04.2014 – – Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio/Ombudsman is investigating. |
| 5. Cynghorydd Sir/County Councillor | Cynghorydd Sir/County Councillor | | 05.06.2014 | 09.06.2014 – Bydd yr Ombwdsmon yn penderfynu a fydd yn ymchwilio/the Ombudsman is deciding whether to investigate. |

# ATODIAD / ENCLOSURE DD

**CWYNION I AC YMHOLIADAU GAN YR OMBWDSMON – "O" -YNGLŶN Â CHYNGHORWYR CYMUNEDOL A THREF**

**COMPLAINTS TO AND INVESTIGATIONS BY THE OMBUDSMAN – "O" -REGARDING TOWN AND COMMUNITY COUNCILLORS**
**Diweddariad - Update**

**Pwyllgor Safonau- 11 Medi 2014/ Standards Committee 11 September 2014**

| **Enw'r Cynghorydd**<br><br>**Name of Councillor** | **Enw'r Achwynydd**<br><br>**Name of Complainant** | **Cyfeirnod y Ffeil**<br><br>**File Reference**<br>**(i) Un ni/Ours**<br>**(ii) "O"** | **Dyddiad y Gŵyn - "O"**<br><br>**Complaint date - "O"** | **Canlyniad Ymholiad "O" a'r dyddiad neu'r sefyllfa gyfredol**<br>**Result of "O" Investigation and date or the current situation** |
|---|---|---|---|---|
| Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor | Cynghorydd Cymunedol / Community Councillor | (i) 17398<br>(ii) 201305202 | 20.11.2013 | 12.08.2014 – Mae'r Ombwdsmon ddim yn ymchwilio/ "O" is not investigating. |